



Grŵp
**Llandrillo
Menai**



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Prentisiaethau Gradd

Canllaw i
Gyflogwyr

CYNNWYS



Eich canllaw i Brentisiaethau Gradd	3
Manteision Busnes	4
Yn eich cefnogi chi bob cam o'r ffordd	5
Gyda phwy rydyn ni'n gweithio	6
Beth mae ein partneriaid yn ei ddweud	6
Ein Prentisiaethau Gradd	7-9
Cwestiynau cyffredin	10
Beth nesaf?	11



EICH CANLLAW I'N PRENTISIAETHAU GRADD

Cyflwynir ein prentisiaethau gradd gan Brifysgol Bangor a Grŵp Llandrillo Menai. O gydweithio gallwn fanteisio ar gryfderau niferus y ddau sefydliad. Mae GLLM yn arbenigwyr mewn dysgu yn y gwaith ac mae ganddyn nhw gyfoeth o brofiadau o weithio gyda diwydiant, ac mae gan Brifysgol Bangor hanes hir o ragoriaeth academiaidd. Ar y cyd, rydym wedi datblygu cyfres o gymwysterau sy'n cwmpasu'r sgiliau lefel uwch digidol a pheiranyddol sydd eu hangen ar sefydliadau i ddatblygu a chyflawni heriau technolegol y dyfodol.

Beth yw prentisiaeth radd?

Menter a ariennir yn llawn i ddod ag addysg uwch i'r gweithle. Gall prentisiaid ennill gradd Israddedig lawn gan aros yn y gwaith a'r llywodraeth yn talu'r ffioedd.

Y prentisiaid yw eich gweithwyr ac maent yn parhau mewn cyflogaeth trwy gydol eu hastudiaethau. Maent yn treulio rhan o'u hamser ar eu hastudiaethau gradd a'r gweddill yn y gwaith. Mae hynny'n gweithio naill ai trwy eu rhyddhau yn ystod y dydd neu am gyfnodau o amser (gan ddibynnu ar y rhaglen astudio y maent arni).

Bydd y brentisiaeth radd yn cymryd 3 blynedd i'w chwblhau gan ddibynnu pa gymwysterau sydd gan y prentisiaid.

Pam dewis Prentisiaeth Radd i'ch gweithwyr?

Caiff talentau newydd eu denu at gyflogwr blaengar.

Mae'r graddau'n ffordd brofedig o hybu sgiliau yn y gweithle ac mae cyllid y llywodraeth yn talu amdanynt.

Mae'ch gweithwyr eisoes wedi'u hymgorffori yn niwylliant eich sefydliad.

Gallwch gynyddu sgiliau eich gweithlu a hwythau'n parhau yn eu swyddi.

Cyflawnwch eich nodau trwy dderbyn syniadau newydd a meithrin sylfaen gref o dalent.

MANTEISION BUSNES

Mae manteision lu i Brentisiaethau Gradd



DENU TALENT NEWYDD

Bydd gallu astudio gyda chyflogwr cefnogol yn denu staff talentog a brwd.



GWELLA CYNHYRCHIANT

Mae prentisiaethau gradd yn cynyddu cynhyrchiant trwy fynd i'r afael â bwlch sgiliau'r sefydliad.



ANNOG MENTERGARWCH

Caiff syniadau newydd eu dwyn yn uniongyrchol i rolau'r prentisiaid yn eich sefydliad, ac o'r herwydd bydd effaith eu hastudiaethau i'w deimlo'n syth.



GWERTH

Caiff Prentisiaethau Gradd eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu bod buddsoddiad bach mewn amser yn esgor ar enillion enfawr.



CADWCH EICH STAFF GORAU

Bydd prentisiaeth radd yn eich helpu chi gadw staff oherwydd bydd eich staff gorau'n teimlo eu bod yn cael eu gwobrwyo trwy'r hyn y maent wedi'i gyflawni.



SGILIAU LEFEL UWCH

Ychwanegwch y sgiliau sy'n berthnasol i'r diwydiant sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol i helpu'ch busnes dyfu a datblygu.



CYMUNED Y MYFYRWYR

Bydd eich staff yn dod yn rhan o gymuned y myfyrwyr, cymuned o unigolion o'r un anian, a a fydd yn cefnogi ac yn helpu ei gilydd drwy'r cwrs.



CYRSIAU DWYIEITHOG

Gall Bangor a GLLM gynnig addysgu trwy gyfrwng Cymraeg pe bai eich busnes yn gofyn am hynny.

EICH CEFNOGI CHI BOB CAM O'R FFORDD

Rydym yn cefnogi ein cyflogwyr a'u prentisiaid trwy gydol y radd mewn sawl ffordd:

I'r Cyflogwyr

Gallwn eich helpu chi recriwtio prentisiaid newydd trwy wahanol weithgareddau gan gynnwys hysbysebion swyddi a marchnata'n uniongyrchol i rai sy'n ymadael â'r coleg a'r ysgol.

Gallwn deilwra'r cynnwys a'r hyfforddiant ymarferol at anghenion eich busnes.

Gallwn gyflawni unrhyw brinder neu fylchau sydd o ran sgiliau trwy ymgysylltu'n barhaus a datblygu rhaglenni a fydd yn helpu'r busnes.

Caiff asesydd pwrpasol ei neilltuo yn y gwaith i bob prentis.

Cyfarfodydd adolygu rheolaidd i drafod adroddiadau am bresenoldeb a chynnydd.



I'r Prentisiaid

Mae'r prentisiaid yn cael mynediad llawn i holl wasanaethau myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor, gan gynnwys y gwasanaethau anabledd a lles, y llyfrgell a TG, aelodaeth am ddim o glybiau a chymdeithasau, gostyngiadau ar aelodaeth o'r gampfa a llawer o fuddion eraill.

Neilltuir tiwtor personol i'ch prentis, a hwnnw/honno'n aelod o'r staff academiaidd a fydd wrth law i drafod gwaith academiaidd yn ogystal â chynnig gofal bugeiliol drwy gydol yr astudiaeth. Mae gennym bolisi drws agored rhwng y staff a'r prentisiaid, sy'n cynnwys e-byst a galwadau ffôn.



GYDA PHWY YDYM YN GWEITHIO?

Caiff ein prentisiaethau gradd eu datblygu ochr yn ochr â'n partneriaid a'n cyflogwyr i sicrhau cymwysterau sydd nid yn unig yn ddefnyddiol i fusnes ond sy'n berthnasol hefyd i'r amgylchedd gwaith sy'n esblygu'n barhaus.



"Dechreuodd fy staff eu prentisiaethau fis Medi ac maen nhw eisoes yn fwy hyderus ac yn llawn syniadau i ddatblygu technolegau'r busnes."

"Mae'r prentisiaethau'n caniatáu i'm staff ddatblygu eu sgiliau ar yr un raddfa ag y mae'r busnes yn ei ddatblygu"

"I'Rwyf wedi gallu denu darpar dalentau i'm busnes gyda'r Prentisiaethau Gradd, mae'r rhaglen wedi caniatáu inni ddatblygu ein busnes yn gynt o lawer trwy fowldio ein tîm wrth iddynt ddysgu."

"O ddilyn prentisiaeth rwyf wedi gallu aros yn fy swydd, a gweithio ar yr un pryd ar fy rhestr o ddymuniadau ar gyfer systemau TG ein cwmnïau."

EIN PRENTISIAETHAU GRADD:

Y Gofynion Mynediad: Rhaid i'r prentisiaid fod naill ai mewn cyflogaeth lawn-amser neu ran-amser (o leiaf 16 awr yr wythnos) mewn cyflogaeth berthnasol. Caiff pob ymgeisydd ei ystyried fesul achos a bydd disgwyl iddynt ddod am gyfweiliad anffurfiol.

Hyd: Mae ein holl raddau digidol yn cynnwys cymwyseddau craidd mewn rhaglennu, dylunio cronfeydd data a moeseg rheoli arferion proffesiynol a sgiliau ymchwil ac astudio a hyd pob gradd yw 3 blynedd.

Prentisiaethau	Disgrifiad	Rhestr o'r modiwlau enghreifftiol	Rolau Enghreifftiol
Peirianeg Meddalwedd Gymhwysol	Mae'r cymhwyster hwn yn cwmpasu amryw o sgiliau sy'n angenrheidiol i llwyddo yn y sector TG. Mae'r agweddau dangosol yn datblygu o'r sylfeini cyfrifiadurol a rhaglennu gyda Python, C# a Enterprise Java ar y we, creu gwefannau gyda HTML5/ CSS ac User Experience (UX) a HCI, datblygu apiau'r ffôn symudol, dulliau peirianyddu meddalwedd ffurfiol, diogelwch a, hefyd yn y flwyddyn olaf bydd y prentisiaid yn ymgymryd â phrojectau sy'n gysylltiedig â'u gweithle. Yn ogystal, bydd y dysgwyr hefyd yn gallu ystyried ac ymchwilio i dechnoleg newydd sy'n codi'n gyson, sut i'w defnyddio a'r ystyriaethau moesegol.	Creu/Rheoli Gwefan Hygyrch Dylunio Gwefannau Hygyrch Hanfodion Graffeg Ddigidol Systemau Cyfrifiadurol Cynllunio Technoleg Symudol/Creu Rhaglenni OO Cyfrifiadura Moesegol Rheoli Projectau ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Comp Technolegau Cyfrifiadura sy'n Codi Peirianeg Meddalwedd Rhaglennu Busnes a Menter User Experience (UX) a HCI Astudio Prototeipio Meddalwedd Datblygu Meddalwedd Cynhyrchu - Project Ymchwil	Dadansoddwr Cymwysiadau Datblygwr cymwysiadau Dyluniwr gemau Datblygwr gemau Rheolwr systemau gwybodaeth Ymgynghorydd TG Peirianydd meddalwedd Dadansoddwr systemau Dylunydd UX Dylunydd y We Datblygwr y We
Seiberddiogelwch Cymhwysol	Mae'r llwybr hwn yn arfogi'r technegydd rhwydwaith modern â'r sgiliau sy'n ofynnol i reoli a diogelu systemau cyfrifiadurol. Datblygir amryw o sgiliau gan gynnwys sgiliau rhaglennu gyda Python, cyflwyniad i rwydweithiau gyda chysiau CISCO CCNA, deddfwriaeth sy'n ymwneud â rheoli system gyfrifiadurol a rheolaeth a diogelwch gwefannau. Yn y flwyddyn olaf mae project: Datrysiaid Diogelwch Uwch, ynghyd â mathemateg Cryptograffeg ffurfiol, Profi Treiddiad, a datblygu Meddalwedd ac Enterprise Java.	Technolegau'r We Llwybro a Newid Hanfodion Diogelwch a Moeseg Data gydag Unix Gweinyddion y We a Dilysu Aml-ddefnyddiwr UNIX Mathemateg ar gyfer Cryptograffeg Diogelwch Dylunio Meddalwedd ar gyfer Astudiaeth Profi Treiddiad Diogelwch PESTLE (gan gynnwys GDPR) Project Datrysiaid Diogelwch Uwch	Peirianydd Rhwydwaith lau, Peirianydd Diogelwch Rhwydwaith lau Dadansoddwr seiberddiogelwch Dadansoddwr cyfrifiaduron fforensig Rheolwr systemau gwybodaeth Ymgynghorydd TG Dadansoddwr systemau Datblygwr y we

Prentisiaethau	Disgrifiad	Rhestr o'r modiwlau enghreifftiol	Rolau Enghreifftiol
Gwyddor Data Cymhwysol	Mae'r llwybr gwyddor data cymhwysol yn ymwneud â rheoli a dadansoddi 'data'. Mae'n canolbwyntio ar amrywiol offer rhaglennu a dadansoddi i'w defnyddio i helpu busnesau brosesu data. Ymhlith y pynciau astudio nodweddiadol mae rhaglennu gyda mathemateg Python ar gyfer cyfrifiadura, cyflwyniad i systemau cyfrifiadurol, rheoli data mewn cronfeydd data gydag SQL, sut mae dadansoddi data a'r offer a ddefnyddir yn y broses ddadansoddi. Caiff sgiliau ategol eu datblygu hefyd megis nifer o sgiliau mathemategol sylfaenol sydd eu hangen i ddadansoddi data a moeseg a gofynion cyfreithiol casglu data. Yn y flwyddyn olaf byddant yn Astudio Dysgu Peirianyddol, Rheoli Data Uwch, Delweddu Gwybodaeth, Diogelwch ac yn ymgymryd â dau broiect, un mewn Deallusrwydd Artiffisial, a'r llall mewn Delweddu.	Mathemateg ar gyfer Cyfrifiadura Graffeg Ddigidol (JS Canvas) Dylunio a Rheoli Cronfeydd Ddata Systemau Cyfrifiadurol Technolegau'r We Moeseg Data Strwythurau ac Algorithmau Data Cyflwyniad i Ddelweddu Dadansoddeg Data ac Algorithmau Graffig Rheoli a Dadansoddi Data Uwch Delweddu Gwybodaeth Prosesu Data a Phroiect Deallusrwydd Artiffisial Proiect Dylunio a Delweddu Dysgu Peirianyddol	Dadansoddwr cymwysia dau Datblygwr cymwysia dau Dadansoddwr data Gweinyddwr cronfeydd data Dadansoddwr cyfrifiaduron ffensiog Rheolwr systemau gwybodaeth Ymgynghorydd TG Dadansoddwr systemau Datblygwr y We
Systemau Peirianeg Fecanyddol Gymhwysol;	Mae'r cwrs hwn yn datblygu dealltwriaeth eang o beirianeg fecanyddol ac egwyddorion busnes er mwyn eich cynorthwyo i ddod yn beiriannydd cymwys gyda'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer gyrfa broffesiynol yn y diwydiant peirianeg fecanyddol. Mae'r rhaglen yn datblygu gwybodaeth benodol o egwyddorion peirianeg mewn theori drydanol/ electronig a mecanyddol er mwyn eu defnyddio mewn sefyllfaoedd go iawn. Mae'n darparu sgiliau ymarferol mewn dylunio, profi, iechyd a diogelwch. Mae'n datblygu dulliau gweithredu mathemategol sy'n gysylltiedig â pheirianeg a theori, gan ddangos hyn yn y flwyddyn olaf gyda Peirianeg Pŵer a Diwydiannol.	Dylunio Peirianyddol Deunyddiau Peirianeg Iechyd a Diogelwch mewn Peirianeg Egwyddorion Peirianeg Fecanyddol Egwyddorion Trydanol ac Electronig Mathemateg Peirianeg Awtomeiddio a Roboteg Dylunio a Dadansoddi gyda Chymorth Cyfrifiadur Cynnal a Chadw Peirianeg Gweithgynhyrchu Uwch drwy Gymorth Cyfrifiadur Technegau Rheoli Peirianeg Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD) Rheoli Gweithgynhyrchu'n Gynaliadwy Peirianeg Pŵer Peirianeg Ddiwydiannol Ynni Adnewyddadwy Cynaliadwy Cymhwyso Peiriannau CNC	Peiriannydd Rheolaeth ac Offeryniaeth Peiriannydd Cynnal a Chadw Peiriannydd Mecanyddol Peiriannydd Niwclear

Prentisiaethau	Disgrifiad	Rhestr o'r modiwlau enghreifftiol	Rolau Enghreifftiol
Systemau Peirianeg Drydanol/ Electronig Cymhwysol	Nod y cwrs yw rhoi dealltwriaeth eang i'r myfyrwyr o beirianeg drydanol ac electronig ac egwyddorion busnes i'w cynorthwyo i ddod yn beirianwyr cymwys gyda'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer gyrfa broffesiynol yn y diwydiant peirianeg drydanol ac electronig. Mae'r rhaglen yn datblygu gwybodaeth benodol o egwyddorion peirianeg mewn theori drydanol/ electronig a mecanyddol er mwyn eu defnyddio mewn sefyllfaoedd go iawn. Mae'n darparu sgiliau ymarferol mewn dylunio, profi, iechyd a diogelwch. Mae'n datblygu dulliau gweithredu mathemategol sy'n gysylltiedig â pheirianeg a theori, gan ddangos hynny yn y flwyddyn olaf gyda Peirianeg Pŵer a Diwydiannol.	Egwyddorion Trydanol/ Electronig Deunyddiau Peirianeg Mathemateg Peirianeg Iechyd a Diogelwch mewn Peirianeg Dylunio Peirianyddol Egwyddorion Peirianeg Fecanyddol Awtomeiddio a Roboteg Systemau Data, Rheolaeth a Moeseg Cynnal a Chadw Peirianeg Peiriannau Trydanol Dulliau Mathemategol a Systemau Llinol Systemau Rheoli Peirianeg Pŵer Rheoli Gweithgynhyrchu Cynaliadwy Ynni Adnewyddadwy Cynaliadwy	Ymgynghorydd acwstig Peiriannydd awyrfod Peiriannydd darlledu Technegydd CAD Peiriannydd Rheolaeth ac Offeryniaeth Peiriannydd Dylunio Peiriannydd Trydanol Peiriannydd Electronig Ymgynghorydd TG Peiriannydd y Rhwydwaith Peiriannydd Niwclear Peiriannydd sain Technegydd effeithiau arbennig Dadansoddwr systemau



© Rolls-Royce PLC

CWESTIYNAU CYFFREDIN

FAINT O BRES MAE PRENTIS GRADD YN EI ENNILL?

Caiff prentisiaid eu gwarchod gan isafswm cyflog cenedlaethol, ond rydym yn gofyn i gyflogwyr ymrwymo i gyflog o £12,000 y flwyddyn o leiaf. Mae llawer o gyflogwyr yn dewis talu mwy er mwyn denu'r ymgeiswyr gorau. Byddai'r rhai sy'n cofrestru fel aelodau cyffredol o'r staff fel arfer yn parhau i dderbyn yr un buddion.

YDYCH CHI'N DARPARU PRENTISIAETHAU AR GYFER BUSNESAU YNG NGHYMURU YN UNIG?

Ydym, dim ond i fusnesau yng Nghymru y mae cyllid y llywodraeth ar gael ar gyfer y prentisiaethau gradd. Mae angen i brentisiaid dreulio o leiaf 51% o'u hamser yng Nghymru. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch eich cymhwysedd, cysylltwch â ni i drafod.

AM FAINT O DDIWRNODAU Y MAE'R PRENTISIAID I FFWRDD O'R GWEITHLE YN YSTOD PRENTISIAETH?

Mae hynny'n amrywio yn ôl Prentisiaeth a'r dull cyflwyno a ddewisir. Fel arfer, byddent yn cael eu rhyddhau am y dydd, neu o bosib eu rhyddhau mewn bloc, gan ddibynnu ar y cwricwlwm sy'n cael ei ddysgu ac anghenion y busnes.

BETH FYDD Y GOST IMI?

Caiff prentisiaethau gradd eu hariannu'n llawn sy'n golygu mai'r unig gost i'r cyflogwr yw rhyddhau'ch gweithiwr fel y cytunir.

A YW GWEITHWYR RHAN-AMSER YN CAEL YMUNO Â RHAGLEN BRENTISIAETH?

Ydyn Er mwyn cwblhau rhaglen Brentisiaeth Radd dylai'r gweithwyr fod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos.

A YDYCH YN DATBLYGU RHAGLENNI PRENTISIAETHAU GRADD NEWYDD?

Ydym, rydym yn gweithio'n galed gyda chyflogwyr a phartneriaid o'r diwydiant, i gynyddu ein Prentisiaethau Gradd. Cysylltwch â ni os oes gennych angen penodol.

A ALL FY STAFF WNEUD PRENTISIAETHAU GRADD OS YDYNT WEDI GRADDIO'N BAROD?

Gallant, nid yw hynny'n broblem oni bai bod ganddyn nhw radd ddiweddar yn yr un pwnc eisoes.

BETH NESAF?

Cysylltwch â ni...

Fel cyflogwyr y cam cyntaf yw siarad â ni, gallwn wedyn eich tywys trwy'r broses o sefydlu'r brentisiaeth a chael eich staff i ymrestru ar y rhaglenni rydym yn eu cynnig. Cewch fwy o wybodaeth am y gwahanol brentisiaethau rydyn ni'n eu cynnig ar ein gwefan, chwiliwch am Brentisiaethau Gradd GLLM.

<https://www.gllm.ac.uk/apprenticeships/degree-apprenticeships/>

08445 460 460 a gofyn am brentisiaethau gradd

<https://www.gllm.ac.uk/busnes/>

